**COFNODION Cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn y Pafiliwn, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Mercher, Mehefin 10$^{fed}$, 2026 am 6.30yh**

**Presennol:** Cynghorwyr J. W. Tandy (Cyn-Gadeirydd), H. Davies, A. J. Evans (Cadeirydd), J. E. Davies (Is-Gadeirydd), R. Barnes, L. Wilkins, C. R. Thomas, A. L. Thomas, D. Thomas

**Yn mynychu arlein:** Neb

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd R. A. Davies,

**Absennol:** Cynghorydd A. W. Jones.

**Clerc:** D. Nicholas, Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol

**Cofnodwr:** S. Taylor, Swyddog Gweinyddol

**983.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Roedd y Cynghorydd R. A. Davies wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau am absenoldeb drwy ollyngiad ers Ebrill 2026.

**984.**

**Datganiadau o Fuddiant.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**985.**

**Y Clerc i ddiweddaru'r Cynghorwyr ynghylch y Polisïau Cyfredol.**

Eglurodd y Clerc ei fod wedi adolygu, mewn manylder, y gwelliannau roedd angen eu gwneud yn dilyn y pwyllgor blaenorol, ac mae'r polisïau canlynol wedi'u diweddaru:

**Rheoliadau Cyllidol (er yn rhan o'r Rheolau Sefydlog):** Yn unol â chyfarwyddiadau'r cyfarfod blaenorol, roedd y Clerc wedi creu ffurflen yn datgan yn glir y bydd y Cynghorwyr yn cadw'r Cyfrifon Treth y Cyngor yn gyfredol ac yn cadw at y Côd Ymddygiad. Roedd y ffurflen wedi'i hadolygu gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd cyn y cyfarfod.

Roedd y Clerc wedi awgrymu bod y ffurflen yn cael ei hanfon at Swyddog Monitro Cyngor Sir Caerfyrddin fel bod modd adolygu'r geiriad terfynol cyn mabwysiadu'r ffurflen, yn enwedig os ydy'r Cyngor yn bwriadu datgan bod rhaid i aelodau etholedig neu gyfetholedig ddatgan, yn flynyddol, eu bod yn cadw at amodau'r ffurflen. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod y ffurflen yn cyd-fynd â Chôd Ymddygiad Model Llywodraeth Cymru, a gofynion diogelu data.

Cynigiwyd **argymell** hyn gan y Cyng R. Barnes ac Eiliwyd y cynnig gan y Cyng C. R. Thomas.

**Polisi Dyfarnu Grant:** Ychwanegwyd cyfeiriad at wneud mwy nag un cais am grant, a hynny mewn achosion arbennig.

Cytunwyd derbyn y newidiad, a chynigiwyd **argymell** hyn gan y Cyng R. Barnes ac Eiliwyd y cynnig gan y Cyng D. Thomas.

**Polisi Staff a Gwirfoddolwyr:** Ychwanegwyd gyfeiriad at yr angen am Wiriadau DBS. Yn dilyn cwestiwn gan y Cyng J. W. Tandy, yn gofyn os oedd angen bod pob Cynghorydd yn derbyn Gwiriad DBS, cytunwyd bod y Clerc yn gofyn cyngor Un Llais Cymru cyn mabwysiadu'r polisi.

**Polisi Cwynion:** Roedd y Clerc wedi newid y manylion cyswllt i gynnwys y llinell ffôn tir.

Cynigiwyd **argymell** y newidiad gan y Cyng R. Barnes ac Eiliwyd y cynnig gan y Cyng D. Thomas.

**Polisi Hyfforddiant a Datblygu:** Ynghylch hyfforddiant i'r aelodau, roedd y Clerc wedi dechrau cadw cofrestr o'r nifer aelodau sy'n manteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant.

Cynigiwyd **argymell** y newidiadau gan y Cyng C. R. Thgomas ac Eiliwyd y cynnig gan y Cyng D. Thomas.

Nodwyd bod yr ymateb i'w ychwanegu at y cofnodion a chytunwyd **argymel**l i'r Cyfarfod Cyffredin nesaf bod y diweddariadau hyn yn cael eu dilysu a'u derbyn.

**986.**

**Y Clerc i ddiweddaru'r aelodau ynghylch graddau cyflog ac ennill ei gymhwyster CILCA.**

Eglurodd y Clerc ei fod wedi bod llwyddo i gwblhau hyfforddiant CILCA Cymdeithas Clercod Llywodraeth Leol, a hysbysodd y pwyllgor ei fod wedi trafod ei gytundeb gyda'r Cadeirydd, y Cyng A. J. Evans, cytundeb a lofnodwyd pan cafodd ei benodi'n ffurfiol ar ddechrau Rhagfyr 2022. Mae'r contract yn datgan y byddai'r deiliad swydd, pan fyddai'n cymhwyso'n uwch, gan gynnwys cymwyster CILCA, yn ddilys i dderbyn codiad cyflog gradd cyflog y NLC, a hynny rhwng 1 a 4 pwynt.

Er eglurder, roedd y Cadeirydd wedi darllen rhan o'r cytundeb cyflogaeth, ac hysbysodd y Clerc y Pwyllgor taw ond un pwynt arall oedd ar gael cyn ei fod yn cyrraedd top graddfa gyflog y swydd, a'i fod ar Bwynt 35 ar hyn o bryd.

Cytunwyd **argymell** i'r Cyfarfod Cyffredin nesaf bod goblygiadau'r cytundeb yn cael eu parchu, a dyfarnu un pwynt ar raddfa gyflog y NLC o ddyddiad derbyn y tystysgrif ffurfiol, a symud y Clerc i Bwynt 36 ar raddfa gyflog y NLC.

**987.**

**Mynd i'r afael ag anghysondeb yn Lwfans Gweithio o Gartref y Swyddog Gweinyddol.**

Tra'n cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad a disgrifiad swydd y Swyddog Gweinyddol, eglurodd y Clerc i'r aelodau bod anghysondeb wedi dod i'r golwg. Roedd cyn-ddeiliad y swydd wedi derbyn lwfans am weithio o gartref, ond nid oedd hyn wedi'i dalu i'r deiliad swydd cyfredol, er ei fod yn rhan o'r Cytundeb Cyflogaeth. Esboniodd y Clerc nad oedd ef, neu cyn-ddarparwr y gyflogres wedi sylwi hyn, a gofynnodd bod y pwyllgor yn ystyried talu lwfans gweithio o gartref yn unol â'r Cytundeb Cyflogaeth. Mae hyn yn gyfanswm o £440.00 y flwyddyn, yn daladwy yn fisol.

Roedd y Cyng C. R. Thomas wedi gofyn bod hyn yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau'r cytundeb, a gofynnodd ein bod yn gofyn i'r Cyfarfod Cyffredin nesaf gymeradwyo ôl-ddyddio'r taliad i Awst 2023.

Cynigiwyd hyn gan y Cyng R. Barnes ac Eiliwyd y cynnig gan y Cyng L. Wilkins.

**Argymhellwyd** bod Cyfarfod Cyffredin Mehefin 2026 yn cytuno talu'r swm misol o £36.00, a thalu'r ôl-ddyledion o Awst 2023

**988.**

**Y Clerc i gynnig diweddariad ynghylch y sefyllfa gyfredol parthed â'r ddau Gyfweliad Gwerthuso Staff a gwblhawyd ym mis Mawrth 2026.**

Esboniodd y Clerc bod y Cyfweliadau Gwerthuso Staff wedi'u cynnal ym mis Mawrth, a bod y Cadeirydd ar yr adeg honno, y Cyng J. W. Tandy, wedi cynnig barn ffafriol wrth gynnal gwerthusiad y Clerc. Yn rinwedd ei swydd fel Clerc a rheolwr llinell, roedd hefyd wedi datgan ei fod wedi cynnal ymarfer tebyg gyda'r Swyddog Gweinyddol, ac wedi cyflwyno adolygiad ffafriol.

**Argymhellwyd** cynnwys hyn y cofnodion er mwyn cofnodi'r ffeithiau.

**989.**

**Y Clerc i drafod cynllunio dilyniant staff a rheoli risg.**

Roedd y Clerc wedi gofyn am drafodaeth i ymchwilio cefnogi'r gofynion staff at y dyfodol er mwyn cynnig parhad pe byddai, er enghraifft, y Clerc yn gadael ei swydd neu bod angen iddo gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Roedd am weld trafodaeth ynghylch rolau megis prentisiaeth, Dirprwy Glerc neu rôl arall.

Roedd y Clerc o'r farn bod holl ddyletswyddau y staff presennol yn cael eu gweithredu mewn ffordd rhesymol, ac o fewn yr oriau contract ond, serch hynny, roedd yn credu bod sôn am barhad yn ddigon dilys.

Roedd y Cyng C. R. Thomas o'r farn y byddai cyflogi prentis yn sefyllfa ansicr oherwydd fe allai, wedi iddo dderbyn yr holl wybodaeth, adael y cyngor cyn bod y Clerc wedi gwneud hynny.

Roedd yr Is-Gadeirydd, y Cyng J. E. Davies, wedi gofyn os oedd modd ystyried 'yswiriant person allweddol' a fyddai'n caniatau bod modd cyflogi locwm os oedd unrhywbeth yn amharu ar waith y Clerc.

Dywedodd y Clerc bod hyn yn bosibl, a byddai'n holi yswirwyr y cyngor, ond roedd dal o'r farn y dylid ystyried strategaeth staffio hir-dymor, gan y byddai'n debyg o ymddeol o fewn 6 blynedd.

Awgrymodd y Cyng D. Thomas bod y Clerc yn llunio adroddiad, i'w gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi a Chflogaeth, er mwyn trafod y mater mewn manylder, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng C. R. Thomas.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn paratoi adroddiad, i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Polisi a Chyflogaeth.

**990.**

**Cyfleoedd am hyfforddiant i gynghorwyr newydd a phrofiadol.**

Roedd y Cadeirydd wedi agor trafodaeth ynghylch yr amrywiol gyfleoedd am hyfforddiant sydd ar gael, ac anogodd cynghorwyr newydd a'r rhai mwy profiadol i ymgymryd â'r modylau hyfforddiant sy'n cael eu cynnig gan Un Llais Cymru a chyrff eraill, cyfleoedd y mae'r Clerc yn rhannu gyda'r holl gynghorwyr.

Roedd y Clerc wedi cynnig ei gefnogaeth, gan ddweud y gallai ddarparu sesiwn un-i-un ynghylch materion penodol os oedd unrhyw gynghorydd am dderbyn eglurhad ynghylch unryw fater penodol.

**Argymhellwyd** bod y Clerc yn parhau i ebostio'r cyfleoedd am hyfforddiant diweddaraf, ac yn cynnwys hyn fel eitem agenda yng nghyfarfodydd y dyfodol.

**991.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.09 yh.